Eisteddfod Gadeiriol y Felinheli

Neuadd Goffa'r Felinheli, Sadwrn 6 Chwefror 2027

Cyfarfod y Dydd i ddechrau am 10.30 o'r gloch

Cyfarfod y Nos i ddechrau am 5.30 o'r gloch

Mynediad:

Prynhawn: £4 i oedolion, 50c i blant

Nos: £4 i oedolion, 50c i blant

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru



Eisteddfod y Felinheli

Draw yng nghornel y felin - yn araf
fe bentyrrai'r eisin
diwerth, hyd nes daeth dewin
a throi'r hen olwyn, a'i thrin.

Gruffudd Antur, 2025

Mynediad

Prynhawn:	£4 i oedolion, 50c i blant
Cyfarfod y Nos:	£4 i oedolion, 50c i blant

Beirniaid

Cerdd	Nia Efans, Ynys Môn
Llefaru	Eleri Richards, Porthaethwy
Llên Oedolion	Ifan Prys, Llandwrog
Llên Iau	Casia William, Caernarfon
Celf a Chrefft	Lisa Eurgain, Caernarfon
Dysgwyr	Branwen Glyn, Bontnewydd

Cyfeilyddion

Prynhawn:	Awel Glyn, Y Felinheli
Cyfarfod y Nos:	Steven John Evans-Justice, Caernarfon

Swyddogion

Cadeirydd	Osian Wyn Owen, Y Felinheli
Trysorydd	Nia Medi, Y Felinheli
Ysgrifennydd	Elen Gwenllïan, Y Felinheli 6 Cae Perthi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4AA eisteddfodfelinheli@gmail.com

Cyfarfod y Dydd

Rhybudd:

Cyn cystadlu, dylai'r holl gystadleuwyr sicrhau eu bod wedi darllen yr holl amodau.



Cerddoriaeth

1	**Unawd Bl. Derbyn ac iau** Hunan ddewisiad	Medal a £4, £3, £2
2	**Unawd Bl. 2 ac iau** 'Bwrw glaw', J.Glyn Davies	Medal a £5, £4, £3
3	**Unawd Bl. 3 a 4** 'Lliwiau'r Hydref', Gilmor Griffiths	Medal a £6, £5, £4
4	**Unawd Bl. 5 a 6** 'Meddyliau Plentyn', R.J. Evans	Medal a £6, £5, £4
5	**Deuawd Bl. 6 ac iau** 'Helen', J. Eirian Jones	Medal a £12, £10, £6
6	**Parti Bl. 6 ac iau** (dim mwy na 12 mewn nifer) Hunan-ddewisiad	£15, £12, £10
7	**Côr Bl. 6 ac iau** (dros 12 mewn nifer) Hunan-ddewisiad	£15, £12, £10
8	**Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau** Hunan-ddewisiad	Medal a £6, £5, £4
9	**Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau** Hunan-ddewisiad	Medal a £6, £5, £4
10	**Unawd Piano Bl. 6 ac iau** (heb fod yn hwy na 3 munud) Hunan-ddewisiad	Medal a £6, £5, £4

11	**Unawd Offerynnol Bl. 6 ac iau** (heb fod yn hwy na 3 munud) Hunan-ddewisiad	Medal a £6, £5, £4
12	**Unawd Bl. 7, 8 a 9** 'Gwanwyn' , Morfydd Llwyn Owen, neu 'Mae gen i ddafad gorniog', Mansel Thomas	£12, £10, £8
13	**Unawd Alaw Werin Bl. 7, 8 a 9** Hunan-ddewisiad	£12, £10, £8
14	**Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9** Hunan-ddewisiad	£12, £10, £8
15	**Unawd Piano Bl. 7, 8 a 9** (heb fod yn hwy na 3 munud) Hunan-ddewisiad	£12, £10, £8
16	**Unawd Offerynnol Bl. 7, 8 a 9** (Ac eithrio'r piano, heb fod dros 3 munud) Hunan-ddewisiad	£12, £10, £8
17	**Band/Artist Unigol Bl.6 ac iau** Dylid cyflwyno naill ai: a. Cân wreiddiol (geiriau a cherddoriaeth) yn y dull cyfoes sydd heb ei chyhoeddi na'i pherfformio'n gyhoeddus. Unrhyw arddull e.e Pop, roc, jazz, hip hop, dawns, acwstig neu b. Trefniant o gân gyfoes Gymraeg. Gweler amod arbennig. Gweler amod 14.	£30 i'w rannu

Llefaru

18	**Llefaru Bl. Derbyn ac iau** Hunan ddewisiad	Medal a £4, £3, £2
19	**Llefaru Bl. 2 ac iau** 'Grwndi', John Hywyn	Medal a £5, £4, £3
20	**Llefaru Bl. 3 a 4** 'Breuddwydion', Anni Llŷn	Medal a £6, £5, £4
21	**Llefaru Bl. 5 a 6** 'Siop Lyfrau', Nesta Wyn Jones	Medal a £6, £5, £4
22	**Parti Llefaru Bl. 6 ac iau** 'Tro Gwael ar yr A470', Myrddin ap Dafydd	£15, £12, £10
23	**Llefaru Bl. 7, 8 a 9** 'Mae'r ddraig yma o hyd', T. James Jones	£12, £10, £8

Cyfarfod y Nos

Rhybudd:

Cyn cystadlu, dylai'r holl gystadleuwyr sicrhau eu bod wedi darllen yr holl amodau.

Cerddoriaeth

24	**Unawd Bl. 10 – 13** Hunan-ddewisiad	£15, £12, £10
25	**Unawd Alaw Werin Bl. 10 – 13** Hunan-ddewisiad	£15, £12, £10
26	**Unawd Cerdd Dant Bl. 10 – 13** Hunan-ddewisiad	£15, £12, £10
27	**Unawd Piano Agored** (heb fod yn hwy na 7 munud) Hunan-ddewisiad	£20, £15, £10
28	**Unawd Offerynnol Agored** (heb fod yn hwy na 7 munud) Hunan-ddewisiad	£20, £15, £10
29	**Deuawd Agored** Hunan-ddewisiad	£30, £20, £10
30	**Ensemble Sioe Gerdd** Cyflwyno cân neu olygfa allan o sioe gerdd Gymraeg wreiddiol. Rhwng 2 a 8 mewn nifer. Gweler Amod 15.	£40, £30, £20
31	**Unawd allan o Sioe Gerdd Agored** Hunan-ddewisiad	£30, £20, £15
32	**Unawd Alaw Werin Agored** Hunan-ddewisiad	£25, £15, £10
33	**Unawd Cerdd Dant Agored** Hunan-ddewisiad	£25, £15, £10

Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

34	**Unawd Gymraeg Agored** Hunan-ddewisiad, cân Gymraeg gan unrhyw gyfansoddwr o Gymro.	£40, £30, £20
35	**Canu Emyn Agored** Unrhyw emyn o Caneuon Ffydd.	£20, £15, £10
36	**Prif Unawd** Hunan-ddewisiad	£50, £40, £30
37	**Côr dros 20 mewn nifer – Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru** Unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai na 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunanddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellid hefyd defnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro.	£300, £200, £100

Llefaru

38	**Llefaru Bl. 10 – 13** Hunan-ddewisiad	£15, £12, £10
39	**Darllen darn heb ei atalnodi ar y pryd**	£25 i'w rannu
40	**Monolog Agored** (Heb fod yn hwy na 8 munud. Mae'n rhaid i'r iaith a'r cynnwys fod yn weddus ac addas i gynulleidfa deuluol) Hunan-ddewisiad	£30, £20, £15
41	**Parti Llefaru** Hunan-ddewisiad	£100, £75, £50
42	**Prif Adroddiad** (Heb fod yn hwy na 8 munud) Hunan-ddewisiad	£50, £40, £30

Gwaith Cartref

Rhybudd:

Cyn cystadlu, dylai'r holl gystadleuwyr sicrhau eu bod wedi darllen yr holl amodau.



Barddoniaeth

43	**Blwyddyn 6 ac iau** Cerdd ar y testun 'Yn y Tŷ'	£5, £4, £3	
44	**Dan 18 mlwydd oed** Cerdd ar y testun 'Gorwelion'	£15, £12, £8	
45	**Dan 25 mlwydd oed** Cerdd ar y testun 'Croesi'	£20	
46	**Limrig** Yn cynnwys y llinell 'Mewn tafarn go enwog yn Felin'	£10	A
47	**Englyn** Ar y testun 'Wyneb'	£20	A
48	**Telyneg** Ar y testun 'Ymarfer'	£20	A
49	**Cystadleuaeth y Gadair** Cerdd neu gyfres o gerddi caeth neu rydd hyd at 100 llinell ar y testun 'Cadwyn'	Cadair fechan a £50	A

A Agored o ran oedran.

Rhyddiaith

50	**Blwyddyn 2 ac iau** Llun a Stori - Y Ras	£4, £3, £2	
51	**Blwyddyn 3 – 6** Stori – Wrth y Môr	£5, £4, £3	
52	**Dan 18 mlwydd oed** Stori fer ar y testun 'Tyfu'	£15, £12, £8	
53	**Brawddeg o'r llythrennau:** HEULYN	£10	A
54	**Stori Fer** Cyfle	£20	A
55	**Erthygl Fer am unrhyw ddarn o hanes sy'n berthnasol i Wynedd** Bydd yr erthygl fuddugol yn cael ei hanfon i'r Papur Bro perthnasol lleol	£20	A
56	**Tlws yr Ifanc dan 25 mlwydd oed – Cystadleuaeth Eisteddfodau Cymru -** Darn(au) o farddoniaeth (hyd at 50 llinell) neu ddarn(au) o ryddiaith (hyd at 2000 o eiriau) ar unrhyw ffurf. Agored.	Tlws a £30	
57	**Tlws y Dysgwyr** Proffil ysgrifenedig, neu lafar, ohonoch chi eich hun i'w gynnwys yn Goriad a BangorFelin360	Tlws a £30	
58	**Cystadleuaeth Cyfieithu** Darn gosod gan fusnes lleol. Gweler yr amodau.	£30	A

A Agored o ran oedran.

Celf a Chrefft

Thema i bob oedran: Pobol

Unrhyw gyfrwng gan gynnwys ffotograffiaeth ac eithrio AI. Anogir cystadleuwyr i fynd allan ac edrych o gwmpas yr ardal leol am ysbrydoliaeth.

59	**Blwyddyn Derbyn ac Iau**	£4, £3, £2
60	**Bwyddyn 1 a 2**	£4, £3, £2
61	**Blwyddyn 3 a 4**	£5, £4, £3
62	**Blwyddyn 5 a 6**	£5, £4, £3
63	**Blwyddyn 7, 8, 9**	£10, £8, £6
64	**Agored**	£20

Capel Bethania

Celf a Chrefft

Bydd gwaith enillwyr yn yr adran Celf a Chrefft yn cael ei arddangos yng **Nghapel Bethania, Lôn Emyr, Y Felinheli, LL56 4JD** ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Bydd y gwaith yn cyrraedd rhwng 9-10 y bore, a bydd y beirniadu'n dechrau am 10:30. Bydd darnau'r cael eu casglu o 3 ymlaen.

Lluniaeth


Bydd lluniaeth ysgafn yn cael ei ddarparu gan fudiad neu grŵp gwirfoddol lleol yng Nghapel Bethania, Lôn Emyr, Y Felinheli, LL56 4JD.

Cefn llwyfan

Gan nad oes cefn llwyfan swyddogol i'w gael yn y Neuadd Goffa, mae croeso i gystadleuwyr ddefnyddio Capel Bethania fel gofod i baratoi neu ymarfer.

Gofod i gorau

Mae croeso i gorau ddefnyddio Capel Bethania fel gofod i ymgynnull neu ymarfer.



Amodau

1	Mae'r holl destunau'n **agored i'r byd**.
2	Rhaid i ymgeiswyr fod yn aelodau o'r Flwyddyn Ysgol berthnasol ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Lle mae ystod oedran wedi ei nodi, **at oed yr ymgeisydd ar ddiwrnod yr Eisteddfod** yr ydym yn cyfeirio.
3	Mae hawl gan y Beirniad i **atal neu rannu gwobrau**, oni nodir yn wahanol.
4	**Ni chaniateir gwrthdystiad** cyhoeddus yn yr Eisteddfod.
5	Mae **barn y Pwyllgor yn derfynol** ymhob achos.
6	Ni ellir dal y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw **gynhyrchion sy'n cael eu hanfon** i'r Eisteddfod.
7	**Cymraeg fydd iaith unrhyw berfformiad llafar/lleisiol.**
8	Ni chaniateir i neb gyflwyno **yr un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth.**
9	Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am **gopi i'r beirniad a'r cyfeilydd**.
10	Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw **ddamwain na cholled** yn gysylltiedig â'r Eisteddfod.

Amodau Arbennig Cerddoriaeth

11	**RHAID** i'r cystadleuwyr yng nghyfarfod y nos gysylltu neu anfon copi i'r Ysgrifennydd **erbyn 30 Ionawr** - Elen Gwenllïan, 6 Cae Perthi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4AA neu eisteddfodfelinheli@gmail.com
12	**Y cyfeilyddion swyddogol** yn unig sydd â chaniatâd i gyfeilio, ac eithrio i unawdwyr offerynnol, partïon a chorau – disgwylir iddynt hwy drefnu eu cyfeilyddion eu hunain.

13	Ar ddechrau'r cystadlaethau Cerdd a Cherdd Dant, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr gyflwyno **copi o'r cyfeiliant neu'r alaw** mewn hen nodiant a chyweirnod cywir i'r cyfeilydd.
14	Cystadleuaeth Rhif 17 – RHAID i'r bandiau sy'n cystadlu gofrestru ar gyfer y gystadleuaeth drwy gysylltu gyda'r Ysgrifennydd **erbyn 30 Ionawr**.
15	Cystadleuaeth 30 - Perfformiad heb fod yn hwy na 5 munud. Cewch ddefnyddio piano neu gyfeiliant addas neu drac cefndir. Bydd y cystadleuwyr yn gyfrifol am eu cyfeilydd/ion eu hunain. Caniateir canu mewn unrhyw gyweirnod. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng 1 Mai 2026 a 1 Mai 2027 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol 2027.

Amodau Arbennig Llenyddiaeth

16	Yr holl gyfansoddiadau llenyddol i fod yn llaw yr Ysgrifennydd, Elen Gwenllïan, 6 Cae Perthi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4AA **erbyn dydd Sadwrn, 16 Ionawr, 2027**. Anogir ceisiadau dros e-bost: eisteddfodfelinheli@gmail.com. Dalier sylw: Ni fydd yr eisteddfod yn gallu dychwelyd y gwaith gyda chopi o'r feirniadaeth oni fydd yr ymgeiswyr wedi darparu amlen wedi'i stampio a'i chyfeirio. Darperir beirniadaeth dros e-bost ar gais cystadleuwyr wedi'r eisteddfod.
17	Yng nghystadlaethau'r Gadair a Thlws yr Ifanc, **disgwylir i'r buddugol fod yn bresennol** ar ddiwrnod yr Eisteddfod.
18	Bydd cyfansoddiadau anfuddugol yn cael eu hanfon yn ôl at yr awduron os bydd yr Ysgrifennydd yn derbyn cais i'w hanfon yn ôl, gydag amlen briodol a thâl am eu cludo, o fewn mis ar ôl yr Eisteddfod.
19	Dylid nodi ffugenw yn unig ar waith sy'n cael ei anfon. Dylid rhoi'r enw priodol a'r cyfeiriad mewn amlen dan sêl, gyda'r ffugenw a theitl y gystadleuaeth oddi allan. ONI CHEDWIR YN FANWL AT Y RHEOL HON, **NI FYDD Y CYNHYRCHION YN CAEL EU HANFON AT Y BEIRNIAD**.
20	Cedwir hawl gan y Pwyllgor **i gyhoeddi detholiad** o'r cynhyrchion.
21	Cystadleuaeth Cyfieithu – Bydd yr Eisteddfod yn cydweithio â busnes lleol ac yn gosod darn mae un o'r busnesau hyn yn awyddus iddo gael ei gyfieithu er mwyn annog busnesau lleol i ddefnyddio'r Gymraeg. **Dylid cysylltu ar eisteddfodfelinheli@gmail.com i gael copi o'r darn**.

Amodau Arbennig Celf a Chrefft

22	Dylai holl gynnyrch yr Adran hon gyrraedd **Capel Bethania, Lôn Emyr, Y Felinheli, LL56 4JD** rhwng 9 a 10 o'r gloch bore Sadwrn, 6 Chwefror, 2027.
23	Bydd y beirniadu'n dechrau'n **brydlon am 10.30 o'r gloch**.
24	Rhaid i gystadleuwyr **gasglu eu cynnyrch o'r Capel** rhwng 3:30 a 4:30 o'r gloch ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

Cystadlaethau Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

25	Ar gyfer cystadlaethau Cymdeithas Eisteddfodau Cymru (rhif 36, 43 a 57) dylai cystadleuwyr gyfeirio at **delerau ac amodau y Gymdeithas** ar eu gwefan. (dim angen hwn os ydan ni'n rhoi'r hysbysebion maen nhw'n eu defnyddio dwi'm yn meddwl)



CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU